COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DL 220

Amseru: Arferol

Teitl: Cwmni Dylunio ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2020-2021

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Llywodraethu / Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Mae gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i weithgaredd yn erbyn ei flaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu swyddogaethau statudol.
Ysgrifennir yr adroddiad gan staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), ac am y ddwy flynedd ddiwethaf y mae wedi ei ddylunio gan gwmnïau allanol er mwyn sicrhau gwasanaeth proffesiynol a phrydlon, o fewn terfynau amser.
Mae SCHTh wedi cysylltu gyda dylunydd lleol, Elgan Griffiths, sydd eisoes wedi cyflawni gwaith dylunio i'r CHTh – gan gynnwys Adroddiad Blynyddol 2019-2020 a Hysbysiad Praesept 2021-2022 – i ofyn am ddyfynbris ar gyfer dylunio Adroddiad Blynyddol 2020-2021. Bydd hyn yn helpu sicrhau cysondeb ar draws gwaith cyhoeddedig a dogfennau cyhoeddus y CHTh.
Yn unol â 'Gwybodaeth a Chanllawiau Caffael Heddlu Dyfed-Powys: Gweithdrefnau Caffael – Lefel Gwariant', cadarnheir nad yw'r lefel gwariant sy'n gysylltiedig gyda'r darn hwn o waith yn cyrraedd y trothwy sy'n galw am gasglu dyfynbrisiau gan sefydliadau.
Felly, dim ond un dyfynbris sydd ei angen, sydd eisoes wedi ei gael gan ddylunydd lleol, Elgan Griffiths, ac a ystyrir yn deg ac yn gost effeithlon ar gyfer y darn hwn o waith.

Argymhelliad:
Y gofynnir i ddylunydd lleol, Elgan Griffiths, ddylunio Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y CHTh, am gost o £22.50 i bob tudalen Saesneg, a £11.25 i bob tudalen Cymraeg.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 29/06/2021